



# NOS Cymraeg/Welsh NOS

Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) yn rhan o'r darlun ers canol 1980au, gyda'r cyfieithiadau cyntaf yn ymddangos ar gyfer maes y Cyfryngau (teledu), gofal cymdeithasol/cymunedol/henoed/plant, ar ddechrau'r 1990au, fel rhan o brosiect datblygu wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gymreig - 'NVQs trwy gyfrwng y Gymraeg'. Yn ddiweddarach, daeth y Cynghorau Sgiliau Sector yn gyfrifol am ddatblygu NOS ac am drefnu bod NOS mewn rhai meysydd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

**Sectorau/Meysydd galwedigaethol:** Mae 200+ o gyfresi NOS Cymraeg ar y basdata NOS ar hyn o bryd – yn berthnasol i amrywiaeth o sectorau. Ar gyfer sectorau fel y rhai a nodir isod,

National Occupational Standards (NOS) have been part of the picture since the mid-1980s, with the first translations appearing for Media (television), Social/community/elderly/children's care, in the early 1990s, as part of a Welsh Office funded development project - 'NVQs through the medium of Welsh'. Later, the SSCs became responsible for the development of NOS and for arranging for NOS in some areas to be translated into Welsh.

**Sectors/Occupational areas:** There are currently 200+ Welsh NOS suites on the NOS database – covering a variety of sectors. For sectors such as those identified below



Gweinyddiaeth a Busnes / Administration & Business

Marchnata / Marketing

y Cyfryngau (Ffilm, Teledu, Sain) / Media (Film, TV, Audio) /

Harddwch / Beauty

Adeiladu / Construction

Iechyd / Health

Lletygarwch / Hospitality

Teithio a Thwristiaeth / Travel & Tourism

Chwaraeon a Hamdden / Sports & Leisure

Gwaith Ieuencid / Youth Work

Cyfraith a Chyfiawnder / Law & Justice

Cyfleustodau / Utilities

Trafnidiaeth a Logisteg / Transport & Logistics

Land industries – Agriculture etc. / Diwydiannau'r Tir - Amethi ac ati



**Basdata NOS:** [www.ukstandards.org.uk](http://www.ukstandards.org.uk)  
Mae modd cael at restr gyflawn o'r NOS Cymraeg sydd ar y bas data – l'w cael yn nhrefn y wyddor.

**NOS database:** [www.ukstandards.org.uk](http://www.ukstandards.org.uk)  
A complete list of the Welsh NOS available can be accessed on the database – Arranged in alphabetical order.

**Cyfieithwyr** - dros y blynyddoedd mae corff o gyfieithwyr (cwmnïau cyfieithu ac unigolion) wedi magu profiad ac arbenigedd mewn cyfieithu ar gyfer amrywiaeth o feysydd. Mae gan rai cyrff sector eu cyfieithydd eu hunain.

Mae NOS Cymraeg yn cynnig cyfieithiadau cywir a chyson o derminoleg dechnegol sy'n sector-benodol. Gall defnyddio NOS Cymraeg helpu i osgoi ailadrodd a dyblygu ymdrechion cyfieithu a sicrhau bod cynnwys cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg o safon uchel.

#### At ba ddibenion y defnyddir NOS Cymraeg?

Mae sawl darn o ymchwil yn dangos/awgrymu bod NOS Cymraeg (y cyfieithiadau) yn cael eu defnyddio i wahanol raddau gan randdeiliaid at ddibenion fel

- Datblygu cymwysterau
- Adnabod anghenion hyfforddi
- Llunio rhaglenni/cyrsiau hyfforddi/datblygiad proffesiynol
- Fframwaith Cymwyseddau
- Prentisiaethau
- Y broses recriwtio (e.e., swydd-ddisgrifiadau, manylebau swydd/person, fframwaith ar gyfer cyfweiliad)
- Datblygiad Gyrfa
- Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad
- Gwerthuso perfformiad unigolyn mewn swydd
- Ffynhonnell termau technegol/arbenigol

Mae'n ofynnol i ddatblygwyr NOS fesur y galw am NOS yn yr iaith Gymraeg wrth adolygu a datblygu NOS.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth grant ar gyfer cyfieithu NOS i'r Gymraeg – pan fo galw yn cael ei nodi mewn sector/maes. Caiff ansawdd y NOS Cymraeg ei wirio yn annibynnol er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau yn gywir ac yn gyson.

**Translators** - over the years, translators (translation companies and individuals) have gained experience and expertise in translation for a variety of fields. Some sector bodies employ their own translators.

Welsh NOS offer accurate and consistent translations of sector specific technical terminology. Using Welsh NOS can help to avoid repetition/duplication of translation efforts and ensure the content of Welsh-medium qualifications are of a high quality.

#### For what purpose are Welsh NOS used?

Several pieces of research show/suggest that Welsh NOS (the translations) are used to varying degrees by stakeholders for purposes such as

- Qualification development
- Identify training needs
- Formulate training/professional development programmes/courses
- Competency Framework
- Apprenticeships
- Recruitment process (e.g., job descriptions, job/person specifications, interview framework)
- Career Development
- Information, Advice and Guidance
- Evaluate an individual's job performance
- Source technical/specialist terms

NOS developers are required to assess demand for Welsh language NOS when reviewing and developing NOS.

The Welsh Government will provide grant support for the translation of NOS into Welsh – when demand is identified in a sector/field. Welsh NOS are also independently quality assured to ensure translations are accurate and consistent.